# HCC Market Bulletin

Ebrill 2021

**Yn ddiweddar mae Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) wedi cyhoeddi ystadegau cofrestru lloi cig eidion a llaeth ar gyfer deufis cyntaf 2021. Bydd bwletin y farchnad y mis hwn yn bwrw golwg nôl dros gofrestriadau lloi yn ystod 2020, ac yn ac asesu sut y gallai hyn effeithio ar y cyflenwad dros y flwyddyn i ddod.**

## YN YSTOD 2020

Mae ystadegau gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) yn dangos y cafodd 387,500 o loi eu cofrestru yng Nghymru yn ystod 2020 - sef 7,700 (2.0%) yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2019. O'r cyfanswm hwn, roedd 260,700 (neu 67.3%) yn lloi **cig eidion**. O ran lloi cig eidion, roedd hyn yn gynnydd o 1.4% mewn cymhariaeth â 2019, ac roedd hefyd yn 2.3% yn fwy nag yn 2018.

Roedd nifer y cofrestriadau lloi cig eidion gwryw a benyw yn debyg i'w gilydd, sef 50.8% o loi gwryw a 49.2% o loi benyw. Am fod gan y rhan fwyaf o gynhyrchwyr yng Nghymru fuchesi sy'n lloia yn y gwanwyn (er mwyn lloia oddeutu'r cyfnod troi allan), roedd y nifer fwyaf o'r cofrestriadau ar gyfer lloi cig eidion ym misoedd Ebrill a Mai ac yn cyfrif am 30% o'r cyfanswm ar gyfer 2020.

Cafwyd cynnydd hefyd yng nghofrestriadau **lloi llaeth** yn ystod 2020 - cynnydd o 3.2% i gyfanswm o 126,800. Yn wahanol i'r rhaniad lled gyfartal gyda lloi cig eidion, roedd 65.6% o'r lloi llaeth a gofrestrwyd yn lloi benyw. Roedd hyn bron i dri y cant yn fwy nag yn 2019 - o bosibl oherwydd defnydd cynyddol o semen â rhyw'r epil yn hysbys. Ym Mhrydain yn 2020, cofrestrwyd 3.3% yn fwy o loi llaeth a 0.8% yn fwy o loi cig eidion.

**Cofrestriadau Lloi Cig Eidion yng Nghymru 2020**
**+1.4%**
o'r naill flwyddyn i'r llall


## HYD YMA ELENI

Ar gyfer 2021, dim ond ystadegau cofrestru lloi BCMS ar gyfer mis Ionawr a Chwefror sydd ar gael ar hyn o bryd. Am y flwyddyn hyd yn hyn, cyfanswm y cofrestriadau lloi yng Nghymru yw 58,000 - sef 5.3% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Mae cynnydd yn nifer y cofrestriadau lloi llaeth wedi hybu'r cynnydd cyffredinol yn y niferoedd.

Ar hyn o bryd, mae'r cofrestriadau **lloi llaeth** (29,600) yn 12.2% yn uwch na blwyddyn yn ôl, a chafwyd cynnydd ar gyfer y naill ryw a'r llall. Dangosodd arolwg mis Mehefin gynnydd o 0.3% yn nifer y gwartheg llaeth benyw (dros ddwy flwydd oed, gydag epil) yn 2020, a gallai hynny fod wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer y lloi llaeth hyd yma eleni.

O ran cofrestriadau **lloi cig eidion**, mae'r cyfanswm deufisol ar hyn o bryd (28,400) yn 1.1% yn is na'r llynedd. O'i gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2019 a 2018, fodd bynnag, mae nifer y cofrestriadau lloi cig eidion yn 9.6% a 9.5% yn uwch, yn y drefn honno.

**Cofrestriadau Lloi Cig Eidion yng Nghymru**





Ym mis Ionawr 2021, roedd cofrestriadau lloi cig eidion yn 2.9% yn is na'r flwyddyn flaenorol, ond ym mis Chwefror cafwyd cynnydd bach (0.5%) mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol yn 2020. Wrth inni agosáu at y cyfnod lloia brig ar gyfer buchesi sy'n lloia yn y gwanwyn, mae disgwyl y bydd cynnydd yn ystadegau cofrestru misol BCMS yn ystod y misoedd nesaf.


## EDRYCH TUA'R DYFODOL

Mae'r fuches sugno wedi crebachu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd yn cynnwys 1.51 miliwn o wartheg ym mis Mehefin 2020 - 1.2% yn llai nag yn 2019. Wrth edrych tua'r dyfodol, nid yw'r fuches yn dangos unrhyw arwyddion o gynyddu oherwydd cafwyd cynnydd yn nifer yr heffrod a laddwyd yn 2020 ac yn Chwarter Cyntaf eleni.

Lladdwyd 4.5% yn fwy o heffrod yn 2020 nag yn 2019, ac yn ystod Chwarter Cyntaf 2021 lladdwyd 211,100 o heffrod – gostyngiad o 2.3% dros 12 mis, ond 3.4% yn fwy nag yn 2019 ac 8.1% yn fwy nag yn 2018. Wrth edrych ar gyfanswm y cofrestriadau lloi ym Mhrydain yn ystod 2020, gwelir ychydig o gynnydd (0.5%) mewn cymhariaeth â 2019. Mae'r ystadegau hyn yn awgrymu y bydd y cyflenwad i'r farchnad gartref yn y DU yn debygol o barhau'n gyfyngedig yn y dyfodol.

**Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr**





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 221.2c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Ebrill, sef 0.3c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Mae'r pris cyfredol yn dda mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, a bron yn 38c yn uwch nag ydoedd flwyddyn yn ôl a 36c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 184.8c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Ebrill, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 401.4c/kg - sef 3.2c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 83.1c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 399.9c/kg (2.0c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol). Y pris am deirw ifainc oedd 395.8c/kg (+3.0c), a'r pris am fuchod difa oedd 276.6c/kg (+3.0c).

Lladdwyd 235,200 o wartheg yn lladd-dai'r DU yn ystod mis Mawrth, sef 7.4% yn llai nag ym mis Mawrth 2020. Lladdwyd 175,200 o wartheg dethol yn ystod y mis, sef 4.9% yn llai o'r naill flwyddyn i'r llall, a gwelwyd gostyngiad hefyd ym mhob categori. Cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y gwartheg llawn dwf a laddwyd mewn cymhariaeth â 2020, sef gostyngiad o 6.4% i gyfanswm o 52,600. Mae hyn yn golygu fod cyfanswm y gwartheg a laddwyd yn ystod Chwater Cyntaf 2021 yn 5.4% yn llai nad ydoedd y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm y cig eidion a gynhyrchwyd ym mis Mawrth yn 78,100 tunnell, sef gostyngiad o 5.3% mewn blwyddyn.

**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**





**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


## DEFAID

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfartalog ar gyfer ŵyn dethol pwysau byw (Hen Dymor a Thymor Newydd) , mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi tueddu i fod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Ebrill, cwympodd y pris 10.2c i gyfartaledd o 306.6c/kg. Er gwaethaf y gostyngiad o'r naill wythnos i'r llall, mae'r prisiau'n dal i fod yn 79.6c yn uwch na blwyddyn yn gynharach, a 91.2c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 215.4c/kg). Roedd prisiau mamogiaid difa ym marchnadoedd da byw Cymru yn £84.60 y pen ar gyfartaledd, sef £8.40 yn is na'r wythnos flaenorol ond £18.60 yn uwch nag yn 2020. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 674.2c/kg yn yr wythnos yn diweddu 24 Ebrill (+210.4c ar y flwyddyn).

Nifer yr holl ddefaid a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU ym mis Mawrth oedd 1.0 miliwn, sef 3.0% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 1.1% yn llai o ŵyn dethol na'r llynedd (cyfanswm o 916,000), a lladdwyd 16.6% yn llai o famogiaid difa a hyrddod (cyfanswm o 110,600). Wrth edrych ar Chwarter Cyntaf 2020, lladdwyd cyfanswm o 2.5 miliwn o ŵyn (9.3% yn llai na'r flwyddyn flaenorol) a lladdwyd 277,000 o ddefaid difa (gostyngiad o 27.0%). Roedd y carcasau ychydig yn drymach yn ystod mis Mawrth, gan ddod â chyfanswm pwysau'r cig defaid a gynhyrchwyd i 22,000 tunnell, sef 0.3% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

**Pris cyfartalog yr holl foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**




**Cynnyrch Porc yn y DU**

## MOCH

Ar y cyfan, mae prisiau moch wedi gwella ers dechrau mis Mawrth, ac roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ar gyfer yr wythnos yn diweddu 17 Ebrill (147.9c/kg) yn 1.4c yn uwch na'r wythnos flaenorol. Dyma'r bumed wythnos yn olynol i'r pris gynyddu. Mae'r pris cyfartalog cyfredol yn is na'r llynedd o hyd (-18.7c), ond mae'n 4.4c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod galw o hyd o ranbarthau Asia ar gyfer porc yn enwedig. Mae'r prisiau yn Ewrop yn dal i wella. Roedd pris cyfeirio'r UE yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 18 Ebrill (136.6c/kg) yn 1.6c yn uwch na'r wythnos flaenorol.

Lladdwyd cyfanswm o 1.1 miliwn o foch yn lladd-dai'r DU ym mis Mawrth, sef 12.2% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol, ac mae hyn yn awgrymu fod y lladd-dai'n delio â'r ôl-groniad o foch ar y ffermydd. Y prif reswm am y cynnydd oedd bod 112,600 yn fwy o foch heb fagu wedi cael eu hanfon i'r lladd-dai, a bod y carcasau'n pwyso 88.6kg ar gyfartaledd sef 2.0kg yn drymach na'r llynedd. Golygodd y cyfuniad o fwy o foch yn cael eu lladd a charcasau trymach fod 15.1% yn fwy o borc (cyfanswm o 97.000 tunnell) wedi cael ei gynhyrchu ym mis Mawrth, sef mwy nag a gynhyrchwyd oddi ar y flwyddyn 2000.